**Cyngor Cymuned Y Bontnewydd**
**COFNODION CYFARFOD MISOL TACHWEDD 12020**
5 Tachwedd 2020 7.00 yh drwy gyfrwng fideo

## 1. YMDDIHEURIADAU

Dim

**Presennol:** Dafydd Iwan, Emyr Williams, Math Williams, Erddyn Davies, Huw Orwig, Mirain Llwyd Owen, Wynn Roberts, Peter Garlick

**Cadeirio:** Geraint Strello

**Clerc:** Huw Llwyd Rowlands

## 2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Dafydd Iwan ddiddordeb yn eitem 4.1 am ei fod yn Ymddiriedolwr o Age Cymru Gwynedd a Môn.

## 3. CADARNHAU COFNODION 1 HYDREF 2020

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 1 Hydref 2020

Cynnig: Erddyn Davies
Eilio: Wynn Roberts

## 4. MATERION SEFYDLOG

### 4.1 Adroddiad gan y Cynghorydd Peter Garlick

Trafodwyd ymhellach gydweithio efo Age Cymru i ddarparu bwyd i'r rhai bregus a dros 70 oed yn y gymuned.

Cost pryd o fwyd wedi ei ddarparu gaN Age Cymru fyddai tua £3.25 am ginio dydd Sul a phwdin - yn dibynnu ar y niferoedd a archebir.

Byddai'n costio ychydig dros fil o bunnoedd i ddarparu bwyd i tua 80 o drigolion yn y cyfnod rhwng diwedd Tachwedd a'r Nadolig. Cytunwyd mewn egwyddor i wario'r swm yma, ac i sefydlu is-bwyllgor fyddai'n cyfarfod yn fuan er mwyn trafod a gweithredu'r mater ymhellach.

Bu trafodaeth hefyd ar ddarparu anrhegion i blant y gymuned, gan na fyddant yn medru ymweld â Siôn Corn eleni. Cytunwyd i drafod hyn ymhellach cyn y cyfarfod misol nesaf, gyda'r bwriad o sefydlu is-bwyllgor i weithredu'r mater.

Byddai yn rhaid i unrhyw wariant ddod o fewn uchafswm gwariant adran 137 am y flwyddyn ariannol 2020/21.

Mae'r ffordd o Gastellmai tan Blas Glanrafon mewn cyflwr drwg iawn. Er bod y lôn yn rhannol ym mhlwyf Waunfawr, mae trigolion ward Bontnewydd yn ei defnyddio.

Mae gwaith ail-wynebu wedi bod yn y gorffennol, ond hynny yn rhannol gan berchnogion ceffylau gan ei fod yn llwybr ceffylau. Mae'n bosibl nad yw'n dod yn swyddogol o dan weinyddiaeth adran briffyrdd Cyngor Gwynedd.

Cytunwyd y dylid ysgrifennu llythyr at Gyngor Cymuned Waunfawr yn cynnig cefnogi ail-wynebu'r lôn a chysylltu efo Cyngor Gwynedd hefyd.

Mae dŵr budr yn rhedeg o'r ffordd osgoi i'r lôn rhwng Bontnewydd a Llanfaglan. Mae hyn wedi bod yn broblem ers tua mis Awst, ac er gwaethaf cysylltu efo Jones Bros, ni chafwyd unrhyw ddatrysiad parhaol. Cytunodd Peter Garlick i fynd ar ôl hyn unwaith eto efo Jones Bros. Mae'n debyg mai draeniau newydd wedi eu cau sy'n achosi'r broblem.

Ceir problem ddŵr ar y ffordd ger Tyddyn Meical hefyd. Mae hyn ar y ffin efo Ward Seiont, ac fe gytunodd Peter Garlick i gysylltu efo'r Cynghorydd Cai Larsen er mwyn trafod y broblem.

**4.2 Y Ganolfan, Bontnewydd**

Cytunwyd i dalu anfoneb Colin Tate am wneud gwaith yn gosod plastig ar y bargoedY Ganolfan - £4,292.39 yn cynnwys TAW.

Cytunwyd fod angen dod i ddealltwriaeth mwy ffurfiol ar dalu costau a biliau'r Ganolfan.

Roedd y Cynghorydd Math Williams o'r farn y dylai pwyllgor Y Ganolfan redeg y lle o ddydd i ddydd efo'r incwm oedd yn cael ei gynhyrchu, ond fod gwariant ychwanegol fel gwariant cyfalaf yn mynd ar ofyn y Cyngor cymuned.

Cytunodd y Cynghorydd Math Williams a'r Cynghorydd Dafydd Iwan feddwl am y berthynas rhwng Y Ganolfan a'r cyngor cymuned a ffurfio dogfen yn amlinellu'r ddealltwriaeth.

Gan y byddai rhoi paneli solar ar yr adeilad yn hwyluso llwyddiant cais am grant am yr ystafell ymgynnull, penderfynwyd gofyn am bris gan Gemini Solar i osod paneli solar.  Gall hyn gostio tua £5-6,000 ond byddai'n talu am ei hun o fewn tua 8-10 blynedd.

## 5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

### 5.1 Les Cae Stanley

Disgwylir pris gan y cyfreithwyr am ddrafftio les newydd.  Bydd angen trafod yr union delerau wrth i'r les gael ei drafftio, ac yn benodol hawliau dros y cae bach, a gofyniad i gael caniatâd y cyngor cymuned os gosodir unrhyw strwythurau ar y cae.

### 5.2 Cyfethol Aelod

Cafwyd dau gais.  Doedd un ddim yn cydymffurfio â'r gofynion ar hyn o bryd oherwydd nid oedd yn byw yn y gymuned.

Roedd y cais arall gan Dylan Morgan, sydd yn byw ym Montnewydd

Cytunwyd i ethol Dylan Morgan yn unfrydol.

Cynnig:  Erddyn Davies
Eilio:Wynn Roberts

### 5.3 Gwasanaeth Torri Gwair Cyngor Gwynedd

Ni chafwyd ateb gam Gyngor Gwynedd parthed y mater yma, ac felly fe gytunwyd i drafod y mater yng nghyfarfod Rhagfyr.

### 5.4 Hysbysfwrdd Llanfaglan

Bu'r Cynghorydd Erddyn Davies a Geraint Strello yn trwsio'r hysbysfwrdd yn Llanfaglan.  Costiodd y deunyddiau £84.02 ac fe gymeradwywyd y taliad yma.

## 6. MATERION ARIANNOL

### 6.1 Cyflog a Chostau Clerc Hydref 2020

£234.00 - £46.80 treth incwm = £187.20 + costau swyddfa £45.00

**Cyflog** £232.20 y mis
**TWE** £46.80 y mis

**Cyfanswm Gros** £279.00 y mis
**Cyfanswm Net** £232.20 y mis

**6.2** Taliad iawndal i mewn i'r cyfrif banc gan HSBC - £50.00

## 7. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Cais cynllunio C20/0623/19/AC i newid amodau caniatâd cynllunio Cefnwerthyd gan gynnwys symud modurdy, newid lefelau a thynnu rhan o'r llwybr troed.

Cytunwyd i ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ddweud nad oedd gan y cyngor cymuned sylw ar y cais.

## 8. GOHEBIAETH

Dim

## 9. MATERION ERAILL

### 9.1 Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol Gwynedd a Môn, - Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid, a Newid Defnydd Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol, Safleoedd Cyflogaeth ac Unedau Manwerthu

Mae Gwynedd a Môn yn ymgynghori ar ganllawiau cynllunio atodol. Cytunwyd y dylid danfon unrhyw sylwadau ymlaen at y Clerc.

### 9.2 Cymorth Covid-19

Bu trafodaeth ar y mater yma yn eitem 4.1 uchod.

**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf – 3 Rhagfyr 2020, 7:00 yr hwyr.**